**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC 03-03(p6)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 20 Mawrth 2003 |
| **Amser:** | 9.15am |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 & 4 |
| **Teitl:** | Gyflog Cyfartal strategaeth ar gyfer y flwyddyn |

**Y CYD-WEITHGOR AR GYFLOG CYFARTAL**

**YMGYRCH I GAU'R BWLCH CYFLOG**

Disgrifir hynt y gwaith ar gyflog cyfartal yng Nghymru rhwng Mawrth 2002 a Mawrth 2003 mewn Adroddiad Interim ar wahân am yr Ymgyrch i Gau'r Bwlch Cyflog (Papur 5).

Yn y papur hwn, roddir crynodeb o'r tasgau hynny y cytunodd partneriaid yr ymgyrch i'w cyflawni yn y Cynllun Gweithredu ar y Cyd, ond na allent eu cwblhau yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mae'n gwneud argymhellion ynghylch sut y gellid eu cyflawni yn y flwyddyn sydd i ddod.

**ARGYMHELLION**

**Bwrw ymlaen â'r ymgyrch**

- Mae'r ymgyrch cyflog cyfartal wrth wraidd agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran ei gallu i fynd i'r afael â thlodi a helpu cynhwysiant cymdeithasol ac adfywio economaidd. Mae gweithgareddau'r ymgyrch yn y dyfodol wedi eu llunio er mwyn cyrraedd y nodau hyn a lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru.

- Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru fwrw ymlaen â'r ymgyrch am fod ganddi ddyletswydd statudol i hyrwyddo cydraddoldeb yn ei holl swyddogaethau.

- Er mwyn parhau â'r ymgyrch bwysig hon dylai'r Cynulliad secondio aelod o staff ar lefel AO/EO i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal am flwyddyn a rhoi'r un faint o gyllid â chynt, sef £75,000. Pe byddai'n cael yr adnoddau hyn gallai'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal sicrhau bod yr argymhellion yn y papur hwn yn cael eu cyflawni.

- Mae gan y tri phartner fel ei gilydd ddyletswydd i fwrw ymlaen â'r ymrwymiadau a wnaed yn y Cynllun Gweithredu ar y Cyd. I gychwyn, yr Uned Polisi Cydraddoldeb gymrodd yr awenau ar gyflog cyfartal, ond bydd ganddi flaenoriaethau eraill yn 2003/2004 ers i Erthygl 13 gael ei chyflwyno.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

- Ym mis Hydref 2002, cynhaliodd gwasanaeth sifil y Cynulliad ail archwiliad cyflog cyfartal ar gyflogau staff y Cynulliad ac roedd y canlyniadau'n galonogol. Dylent adolygu'r strwythur gyflog unwaith yn rhagor, cyn 2004, i gadarnhau bod mesurau oedd wedi eu llunio er mwyn cau'r bwlch cyflog yn 2001-03 wedi cael yr effaith a ddymunwyd.

- Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod ystadegau digonol am y rhywiau ar gael yng Nghymru. Mae angen am y rhain er mwyn mesur yn gywir effaith ein hymdrechion ledled Cymru i gau'r bwlch cyflog. Dylid cyfeirio hwn at y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i fwrw ymlaen ag ef.

- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r hyblygrwydd rhwng bywyd a gwaith yng ngwasanaeth sifil y Cynulliad a gofyn i'r Cyrff a Noddir gan y Cynulliad wneud hyn hefyd. Byddai hyn yn gwneud yn siwr y gellir mynd i'r afael â'r gyfran honno o'r bwlch cyflog a achosir gan effaith anghyfartal y cyfrifoldebau teuluol sydd gan fenywod. Dylai'r ymgyrch roi arbenigedd a chyngor i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

- Dylid datblygu dulliau cydymffurfio â chontractau i wneud yn siwr bod gan y rheini sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i'r Cynulliad systemau cyflog teg. Dylid hefyd gynnwys cyflog cyfartal fel maen prawf yn y ceisiadau y mae busnesau yn eu gwneud i'r WDA am gymorth ariannol. Trwy hyn, gellid gwneud yn siwr bod y sawl sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau yn cydymffurfio â'r gyfraith ar gyflog cyfartal a byddai'n annog arferion gorau.

**Cyrff a Noddir ac a Ariennir gan y Cynulliad**

- Mae angen i'r Cyrff a Noddir gan y Cynulliad gadarnhau a oes bylchau o hyd rhwng eu cyflogau ac a ydynt wedi mynd i'r afael â materion gwerth cyfartal erbyn cylch cyflog 2004.

- Mae'r GIG, Addysg Uwch a Llywodraeth Leol yn gweithredu cynlluniau gwerthuso swyddi ac yn bwriadu mynd i'r afael â chyflog cyfartal y flwyddyn nesaf. Mae angen i'r ymgyrch weithio'n agos gyda chyflogwyr ac undebau, gan gynnig arbenigedd a chymorth a chydlynu canlyniadau.

**Y Sector Gwirfoddol**

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn ariannu cyrff yn y sector gwirfoddol. Mae gan y rhain amrywiaeth o systemau cyflog ac mae angen eu hannog i gynnal adolygiadau cyflog. Erbyn hyn, mae gennym becyn adolygu cyflog cyfartal sy'n addas ar gyfer sefydliadau bach ac mae angen cymryd agwedd systematig at y sector gwirfoddol

yn ystod y misoedd nesaf. Byddai rhoi cyflwyniad i Gyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol am gyflog cyfartal yn fan cychwyn da.

**Datblygu Economaidd yng Nghymru**

- Mae'r ymgyrch wedi meithrin cydgysylltiad effeithiol gyda sefydliadau cyflogwyr ac mae wedi datblygu pecynnau adolygiad cyflog cyfartal sy'n addas ar gyfer busnesau mawr a bach. Hyd yma, ni chynhaliwyd rhyw nifer fawr o adolygiadau cyflog yn y sector preifat yng Nghymru. Mae angen i ni roi mwy o ymdrech yn y sector hwn er mwyn cau'r bwlch cyflog. Dylid dyrannu adnoddau fel y gellir mynd ati'n systematig i gael cyflogwyr i ddechrau ar eu hadolygiadau cyflog.

- Mae busnesau bach yn sector mawr a phwysig yn economi Cymru. Mae arian ac adnoddau yn cael eu rhoi i'r sector hwn i sicrhau datblygiad economaidd er mwyn gofalu bod busnesau bach yn goroesi a bod swyddi yn cael eu diogelu. Rhan o'r broses hon yw cyngor ar gyflog teg a systemau cyflog cyfartal sy'n cwrdd ag anghenion busnes ac sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. Mae angen adnoddau y flwyddyn nesaf ar gyfer cydgysylltu â busnesau bach a'u hannog i ddefnyddio'r pecyn busnesau bach.

- Mae'r Sector Cyllid yn cyflogi miloedd y staff yng Nghymru. Dylid sefydlu fforwm cyflog cyfartal a'i ehangu i gynnwys yr holl gyflogwyr yn y sector hwn. Dylai'r ymgyrch gynnig arbenigedd, cyngor, cydlyniad ac ati. Byddai sicrhau bod gan gyflogwyr gynlluniau gweithredu i gau'r bwlch cyflog yn y sector cyllid yn gam mawr ymlaen tuag at ein targed i gau'r bwlch yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd.

- Dylai'r ymgyrch archwilio'r posibilrwydd o roi mentrau cyflog cyfartal ar waith gyda chyflogwyr yn y sector adwerthu a thwristiaeth yng Nghymru.

**Y CYD-WEITHGOR AR GYFLOG CYFARTAL**